# Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG

# COFNODION CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION (FFCY) CAERDYDD

**Amser:** 8.30am – 10.30am
**Dyddiad:** 13.11.2024
**Lleoliad:** Microsoft Teams
**Yn bresennol:** Is-gadeirydd – Nic Naish (NN), Cllr Sarah Merry (SM), Cllr Chris Weaver (CW), Melanie Godfrey (MG), Ian Allwood (IA), Eifion Austin (EA), Angela Jardine (AJ), Jennie Hughes (JH), Nicola Price (NP), Paul Tucker (PT), Tim Adams (TA), Stuart Davies (SD), David Silver (DS), Ann Griffin (AG), Abigale Cuthbert (AC), Nick Alexander (NA), Suzanne Scarlett (SS), Marc Belli (MB), Matthew Evans (ME), Carys Prytherch (CP), Ivor Gittins (IG), Will Howlett (WH),Matt O'Brien (MO), Brett Andrewartha (BA), Clerc Rheoli Addysg

**Ymddiheuriadau:** Andrew Skinner (AS), Helen Williams (HW), Emma Richards (ER), Gareth Rein (GR), Richard Portas (RP), Sarah Parry (SP), Alison Poole (AP), Carly Davies (CD), Phillip Andrews (PA), Diane Gill (DG), Alison Powell (AP), Natalie Stork (NS), Catherine Power (CP), Cllr Joel Williams (JW), Suzanne Williams (SW), Mari Phillips (MP), Geraldine Foley (GF), Patrick Brunnock (PB), Saffron Herbert (SH), Wayne Murphy (WM), Sara Allen (SA),

| Cyf | **Casgliadau/Camau Gweithredu** | **Pwy** |
|---|---|---|
| 1.0 | **Ymddiheuriadau a chroeso** | |
| 1.1 | Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a derbyniodd ymddiheuriadau. | |
| 2.0 | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi**<br><br>Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir. | |
| 2.1 | Camau gweithredu/materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol:<br><br>Cofnod 5.1- Bwydodd IA fater yn ôl i ZSB ynglŷn â rhai penaethiaid nad ydynt yn cadw at y polisi adleoli. Ymgysylltwyd â phenaethiaid yr effeithiwyd arnynt wrth fynd trwy'r broses dileu swyddi gorfodol, ac ymgorfforwyd adborth yn y polisi. Rhoddodd AD wybod nad oedd unrhyw faterion pellach wedi'u codi. Gofynnwyd am i bryderon gael eu rhoi i ZSB. Bydd NN yn codi mater ar wahân gyda ZSB ar ddiffyg ymateb gan AD ar y staff sydd ar gael i'w hadleoli.<br><br>Cam Gweithredu: Roedd MG wedi dilyn i fyny gyda LIC ynglŷn â diffyg gweithredu o ran archebu athrawon cyflenwi a bydd yn dilyn i fyny eto.<br><br>Bydd y drafodaeth heddiw yn llywio'r ffrwd gyllido ystwyth ar gyfer anghenion ADY. Cyflwynwyd dilyniant ar feincnodi i'r bwrdd effeithlonrwydd ac mae'n cael ei gwblhau. Cam Gweithredu: Mae bwriad sefydlu grŵp ffocws (cais gan y sector cynradd yn bennaf). | MG<br><br>JH/EA |
| 3.0 | **Diweddariad Cyllideb/CLGau Cyllid** | |

| | | |
|---|---|---|
| 3.1 | Nododd IA ansicrwydd ar hyn o bryd i lywio cytundebau lefel gwasanaeth (CLGau). Bydd CLGau yn cydymffurfio ag amserlen fwy cadarn, gan ddarparu eglurder yn gynharach, byddai cyfathrebiadau ac amseriadau CLGau (hysbysu costau) yn cael eu cryfhau.<br><br>Bydd yr holl CLGau (cyflenwi a chostau) i ysgolion yn cael eu pennu erbyn 1 Chwefror. Anogir gwasanaethau i gyfathrebu newidiadau sylweddol ar gyfer 2025/26. Mae pob maes wedi ymrwymo i leihau costau lle bo hynny'n bosibl, gan gydbwyso costau darparu gwasanaethau cynyddol tra'n cydnabod pwysau ysgolion.<br><br>Gofynnodd NN fod rheoli gwastraff yn cyfathrebu newidiadau i CLGau; roedd costau yn amrywiol ac yn anhysbys nes glanio. Cam Gweithredu: Bydd IA yn sicrhau bod unrhyw ffioedd gan Gyngor Caerdydd i ysgolion yn cael eu cyfathrebu i ysgolion ymlaen llaw.<br><br>Bydd y setliad dros dro yn cael ei gyfathrebu ar 11 Rhagfyr.<br><br>Fformiwla<br>Mae bwriad cyfathrebu ffigurau arwyddol i ysgolion yn gynharach eto, yn amodol ar faint y gellid ei ddyrannu i ysgolion. Bydd modelu fformiwla yn dechrau yng nghanol i ddiwedd mis Ionawr a bydd yn cael ei rannu pan fydd wedi'i gwblhau (canol mis Chwefror yn ôl pob tebyg). | IA |
| 4.0 | **Tudalen We'r FfCY** | |
| 4.1 | Nododd MO ac IA y canlynol:<br><br>• Roedd tîm MO wedi ymgysylltu â thîm gwe'r ALI i ddiweddaru tudalennau gwe'r FfCY.<br>• Mae cyllideb Adran 52 wedi'i chyhoeddi ar y wefan. Bydd alldro a gwariant Adran 52 dros y blynyddoedd yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir wedi cwblhau.<br>• Mae cyfieithu yn cael ei wneud cyn cyhoeddi papurau eraill ar y wefan, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd.<br>• Diweddarwyd yr aelodaeth i adlewyrchu swyddi cyfredol.<br>• Mae proses wedi'i sefydlu i sicrhau bod y dudalen we yn cael ei diweddaru'n rheolaidd.<br>• Gofynnwyd i'r aelodau gysylltu â MO os hoffent weld mwy o wybodaeth yn cael ei hychwanegu.<br>• Croesawodd NN y wybodaeth a rannwyd, defnyddiol cymharu gwariant ar ysgolion tebyg.<br>• Ychwanegodd EA y bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei defnyddio ar gyfer meincnodi, wedi'i chyflwyno mewn modd rhyngweithiol. | |
| 5.0 | **Dyfarniad Cyflog** | |
| 5.1 | Nododd IA y byddai llythyr yn cael ei dderbyn gan LIC ar gwantwm dyfarniad cyflog a phensiynau athrawon erbyn 31 Tachwedd 2024. Byddai'r swm gwirioneddol a dderbyniwyd yn cael ei ddosbarthu gan yr ALI i ysgolion. Bydd ysgolion a'r FfCY yn cael eu hysbysu pan fydd y symiau yn hysbys.<br><br>Cafodd MB sicrwydd gan gyngor a roddwyd mewn cyfarfod ar 8 Tachwedd gan ysgrifennydd y Cabinet i benaethiaid uwchradd y byddai'r dyfarniad cyflog yn cael ei dalu'n llawn, yn seiliedig ar gyflogres yr actiwari yn hytrach na chyfandaliad. Rhoddodd IA gafeat; ni ellid rhoi sicrwydd llawn ar ddisgwyliadau o gyllido llawn, gan nodi bod grantiau yn cael eu pasbortio i ysgolion (ariannwyd 10 i 15 y cant o | |

| | | |
|---|---|---|
| | staff gan grantiau nid gan y fformiwla). Roedd LIC wedi rhoi gwybod y byddai grantiau'n cael eu talu (yn enwedig ar gyfer pensiwn athrawon), byddai'r symiau'n cael eu hysbysu i ysgolion ar ôl eu derbyn.<br><br>Nododd MB y dylai ALlau gael eu hariannu'n ddigonol a gofynnodd i MG barhau i lobïo am i gyflog gael ei dalu.<br><br>Ailadroddodd EA na roddwyd sicrwydd ar gyllid llawn i ALlau yng Nghymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, awgrymwyd cyfandaliad. Nid oedd y dull na'r swm wedi'u cadarnhau eto.<br><br>Tynnodd IA sylw at y ffaith bod angen sicrwydd y byddai'r swm cyfatebol o ddyfarniad cyflog, pensiynau athrawon a grant yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2024/25 (o leiaf £10m), hefyd ychwanegol ar gyfer dyfarniadau cyflog eraill yn cael eu derbyn yn setliad Cyngor Caerdydd ar gyfer 2025/26. Ar ben hynny, roedd costau yswiriant gwladol cynyddol i gyflogwyr ar gyfer gweithwyr a throthwy is. Roedd y llywodraeth ganolog a LIC wedi mynegi dyheadau i ALlau gael eu digolledu. Roedd pob un o'r ddau ar hugain o ALlau wedi mynegi pryderon am gostau cynyddol, sy'n berthnasol i staff a thaliadau i ddarparwyr. Rhagwelir cymorth ar gyfer costau yswiriant i weithwyr ond llai sicr ar gostau yswiriant gwladol i ddarparwyr (h.y. gofal cymdeithasol). Byddai angen gwybod y ffigur i dalu'r costau hyn (gros llai rhwymedigaethau) cyn deall y swm y gellid ei ddarparu i ysgolion.<br><br>Cam Gweithredu: Bydd MG yn drafftio cyfathrebiad i adran addysg LIC ar ran penaethiaid y ddinas, y FfCY a'r undebau.<br><br>Nododd TA fod NASWUT yn gwbl o blaid y llythyr.<br><br>Derbyniodd AJ hysbysiad ynghylch gwall yn y cyfrifiad dogfen cyflog ac amodau athrawon ysgol cyhoeddedig o 5.5% i lwfansau ADY (adran 2, paragraff 4). Dylai'r isafswm ffigur fod yn £2,728 a'r uchafswm yn £5,379. Bydd y ddogfen ddiwygiedig yn cael ei hailgyhoeddi a'r tandaliad cychwynnol ei gywiro yn ddiweddarach. | MG |
| 6.0 | **Ysgolion Arbennig** | |
| 6.1 | Bydd gweithdy cyllido ysgolion arbennig yn cael ei gynnal ar 15 Tachwedd, gan ganolbwyntio ar:<br><br>• Faterion mewn ysgolion arbennig<br>• Fformiwla dyrannu cyllid<br>• Disgrifyddion disgyblion<br>• Cymhareb athrawon<br>• Cymhareb athro i ddisgybl disgrifyddion<br>• Cymarebau cynorthwy-ydd addysgu i ddisgybl o fewn disgrifyddion angen | |
| 7.0 | **Diweddariad Ffrydiau Gwaith Fformiwla Cyllido Ysgolion** | |
| 7.1 | Gwnaethpwyd gwaith pellach ar ffrydiau cyllido o fewn y fformiwla. Dangoswyd papurau a modelu ariannol newidiadau (taenlen ryngweithiol), gan gynnwys cynnig y Ffrydiau Gwaith diweddaraf i'w hadolygu i'w gweithredu yn 2025/26.<br><br>Diogelu ar gyfer ysgolion sydd â chofrestri sy'n gostwng gan fwy na 5%<br>• Dehonglwyd adborth fel ymrwymiad gan yr aelodau i bob ysgol fod yn gynaliadwy.<br>• Cwestiynodd DS effaith ariannol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | <u>Cyllido Lleoedd Meithrin</u><br>• Yn hanesyddol, comisiynwyd lleoedd ar gyfer y flwyddyn ariannol, gan roi sicrwydd i ysgolion. Cynigiwyd mecanwaith cyllido gwahanol ar gyfer lleoedd meithrin, yn dymhorol yn hytrach na'n flynyddol.<br>• Roedd bwriad lleihau lleoedd a ariennir gan 12.<br>• Tynnodd AJ sylw at gynllunio ariannol ar gyfer staffio, byddai staff yn cael eu denu'n fwy at gytundeb blwyddyn na thymor, gan dynnu sylw at newidiadau posibl i staff meithrin gyda lleoedd yn llenwi dros y flwyddyn.<br>• Ychwanegodd NN y gallai rhieni ffafrio darpariaeth feithrin yn y bore neu'r prynhawn, byddai'n heriol cyfuno dosbarthiadau'n dymhorol. Byddai disgwyl adborth negyddol gan benaethiaid cynradd. Mae dosbarthiadau derbyn yn llawn amser.<br><br>Cam Gweithredu: Cynnig i gael ei gyflwyno i gynhadledd ysgolion cynradd.<br><br>Rhybuddiodd MB am gynigion a allai effeithio ar gyllidebau ysgolion uwchradd neu arbennig. Byddai angen gweld goblygiadau cost cyn y gellid rhoi adborth.<br><br>Dilynodd trafodaeth ar sut i symud ffrydiau gwaith ymlaen.<br><br>Adleisiodd WH recriwtio a chadw staff, ac anrhagweladwyedd dosbarthiadau meithrin, rhaid ystyried lefel yr angen a'r her.<br><br>Tynnodd PT sylw at gysondeb staff, roedd y gallu i gefnogi disgyblion o'r cychwyn cyntaf yn ffactor pwysig. Byddai angen i staff a benodir am dymor gwblhau hyfforddiant a darparu'r un ansawdd o ddarpariaeth, gan gefnogi'r plant o'r diwrnod cyntaf. Mae'r ddarpariaeth yn rhan heriol o'r ysgol gan fod anghenion y plant yn anhysbys cyn ymuno (yn anaml y nodir unrhyw un o'u hanghenion cyn mynychu ysgolion).<br><br>Daeth EA i'r casgliad bod y diffyg tegwch rhwng dosbarth meithrin sy'n llawn erbyn mis Medi ac yn llawn erbyn y Pasg yn dderbyniol oherwydd cysondeb a sicrwydd cyllid, gan alluogi penodi staff boddhaol a chynorthwyo i sicrhau bod ysgolion meithrin yn gynhwysol.<br><br>Ychwanegodd NN y gallai realiti y cynnig fod yn broblem, mae angen cwrdd â disgyblion cyn dechrau dosbarth meithrin, gan sicrhau pontio didrafferth. Roedd cyfuno staff meithrin yn fwy heriol na darpariaeth arall.<br><br>Tynnodd AJ sylw at ddatblygiad staff a thueddiad posibl ar gyfer swyddi dros dro, heb eu hariannu'n uniongyrchol a gyda chostau asiantaeth. Gyda'r ddarpariaeth feithrin gywir roedd rhieni yn cefnogi'r ysgol o'r cychwyn cyntaf.<br><br>Dywedodd NN fod angen bod yn ofalus, y dosbarth meithrin yw'r sylfaen i ddysgu ac agwedd at gyd-destun addysg/ysgol, sy'n allweddol i addysg.<br><br><u>Cynnig Swyddogion Presenoldeb Ysgolion (SPY) Uwchradd</u><br><br>Mae'r adolygiad yn ceisio adnewyddu cyllid ar gyfer SPYau, i gwrdd â'r heriau presennol a gwrthdroi tueddiadau o ran presenoldeb yn gostwng.<br><br>Cynigiwyd cynyddu cyllid swyddogion presenoldeb o £1.26m i £1.65m, gan gynnwys cynnydd mewn chwyddiant a chyllid ar gyfer wyth o SPY ychwanegol. | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>EA/MG |

| | | |
|---|---|---|
| | Efallai y bydd angen i glystyrau gyda sawl SPY gael llai i sicrhau tegwch gwasanaeth ledled y ddinas. Bydd y FfCY yn derbyn adroddiadau ar berfformiad/effeithiolrwydd y trefniadau newydd ledled y ddinas.<br><br>Lleisiodd MB bryderon gyda'r disgwyliad lleiaf o staff yn cynorthwyo gyda phresenoldeb (mae angen ymateb graddedig), nid SPY yw'r unig staff i yrru presenoldeb gwell. Dylid gosod y disgwyliadau lleiaf ar gyfer pob ysgol o ran gwella presenoldeb. Roedd yr ysgol wedi talu am gymorth presenoldeb ychwanegol o'i chyllideb, mae diwylliant yr ysgol yn eistedd gyda'r pennaeth. Cwestiynwyd atebolrwydd ac effaith gwariant sylweddol ar SPY dros y blynyddoedd. Rhaid i'r awdurdod ddwyn teuluoedd i gyfrif, gan sicrhau presenoldeb yn yr ysgol. Gallai'r mater waethygu i ysgolion sydd angen mwy o SPY ac sy'n wynebu eu colli.<br><br>Nododd ME wahaniaeth cyllid sylweddol fesul clwstwr, nad oedd o reidrwydd yn cydberthyn â chyllid ar gyfer ardaloedd difreintiedig, roedd sawl ardal â sefyllfaoedd heriol yn perfformio'n dda. Nid oedd yn ymddangos bod lle roedd arian yn cael ei wario yn bennaf yn cyfateb i ble roedd anghenion. Croesawyd y cynnydd i gadw'n unol â chwyddiant. Roedd anghytuno o ran hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer rhieni'r rhai nad ydynt yn mynychu'r ysgol.<br><br>Argymhellwyd gwneud mwy o waith gan gyllid a'r tîm presenoldeb ar graffu a manylion manwl, gan rannu arfer da yn hytrach na rhoi mwy o arian i mewn.<br><br>Croesawodd SD yr adolygiad, gan gefnogi'r cynnydd mewn cyllid ac SPY. Awgrymwyd gwerthuso effaith ar waith i wella presenoldeb ledled y ddinas a gwerth am arian y Gwasanaeth Lles Addysg.<br><br>Nododd NN fod patrymau amrywiol o waith wedi dod i'r amlwg dros y blynyddoedd gydag SPY, roedd rhai wedi datblygu'n dda, roedd eraill angen eu hadfywio.<br><br>Nododd CP fod SPY yn cwmpasu maes amrywiol o angen. Mae angen cysondeb ar draws clystyrau/y ddinas gyda rôl SPY mewn perthynas ag ysgolion cynradd, uwchradd a'r sector Cymraeg. Mae ysgolion cynradd yn gwneud yr hyn y gallant gyda chymorth cyfyngedig. Mae rhai heb yr un lefel o swyddogion presenoldeb. Nid oedd hysbysiadau cosb benodedig yn ateb i ddiffyg presenoldeb, rhaid cefnogi teuluoedd gyda'r anghenion mwyaf.<br><br>Ailadroddodd PT nad oedd cyllid a sut mae'n cael ei rannu ar draws y ddinas wedi cael ei hadolygu ers peth amser. Dylid rhannu cyllid ar wybodaeth gyfredol oherwydd newidiadau i ffiniau dalgylchoedd a llawer o ysgolion newydd. Byddai disgwyl anghysondebau rhwng ysgolion oherwydd blaenoriaethau. Argymhellir i'r ALI rannu arfer da a nodwyd gyda phawb. Mae rôl SPY ac athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd i'w nodi ar gyfer disgwyliadau clir ar yr hyn i'w wneud gyda'r arian a dyraniad amser.<br><br>Nododd NN safbwyntiau cymysg, roedd themâu cyffredin yn cynnwys disgwyliadau gan SPY ledled y ddinas, gan fod diffyg presenoldeb yn fater ledled y ddinas, nid yn fater mewn dim ond un ysgol neu ardal. Y defnydd gorau o gyllid i'w nodi i deuluoedd annog disgyblion i fynychu'r ysgol.<br><br>Cam Gweithredu: Byddai PN yn arwain ar arfer da a gweithredu cyllid.<br><br>Nododd EA y bydd bwriad am gyllid yn cael ei gadarnhau ym mis Ionawr, yn dilyn amrywiol gyfathrebiadau i ysgolion gan yr adran Cyflawniad mewn addysg. | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>PN |

Nododd NN staff a gyflogir ar gontractau, gofynnwyd am i hysbysiad cynharach ar newidiadau capasiti gael ei gyfathrebu.

Rhoddwyd cytundeb eang i gynnydd chwyddiant gael ei roi i ysgolion. Cynnydd mewn capasiti i'w ystyried.

<u>Cyllid cam 3 a 4 i ysgolion uwchradd</u>

Amlinellwyd y cynnig i gynyddu’r dyraniad gan £600k, ni chafwyd unrhyw sylwadau.

<u>Cyllid sy'n swyddogaeth Cymhareb Athro Disgybl</u>

Cynigiwyd uno cyllid rheoli perfformiad a llwyth gwaith â’r uned disgyblion a bwysolir yn ôl cyfataledd, trwy’r amlen cyllido cyflog athrawon neu’r amlen cyllid gweinyddol. Mae gan y ddau elfennau disgybl a chyfandaliad. Sut mae athrawon a staff cymorth yn cael eu cyllido trwy'r fformiwla i'w ystyried ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd y flwyddyn nesaf.

Roedd ME ac MB yn cefnogi'r egwyddor o symleiddio'r fformiwla.

<u>Modelu ariannol</u>

Cyflwynodd EA fodel yn manylu ar y canlynol:

- Dyraniad Fformiwla Ysgolion Cynradd (chwe ysgol gynradd enghreifftiol wedi’u diffinio gan gymhwysedd PYADd a’r niferoedd ar y gofrestr) a chapio’r cynnig ADY prif ffrwd, gan gyfyngu ar golledion ac enillion.
- Symleiddio’r cynnig uned disgyblion a bwysolir yn ôl cyfataledd ynghylch cyllid sy’n seiliedig ar safleoedd fesul disgybl/aelod o staff cymorth
- Cynnig prif ffrwd ar gyfer ADY (effeithiau sector cynradd ac uwchradd)
- Diogelu ar gyfer ysgolion sydd â chofrestri sy'n gostwng gan fwy na 5%
- Cyllid Meithrin
- Ffioedd Arholi
- Cyllid Swyddogion Presenoldeb Ysgol
- Cyllid Cam 3 a 4 (uwchradd)

Cam Gweithredu: Yn dilyn awgrym cytunwyd i waith a wnaed gyda newidiadau arfaethedig i'r fformiwla gael ei gyflwyno ym mhob un o’r cynadleddau ysgol i gasglu adborth. Bydd y model yn cael ei rannu ymlaen llaw i'w drafod. Byddai datblygu grwpiau ffocws ar gyfer ffrydiau gwaith yn cael ei gyflwyno i'r cynadleddau i ddechrau ar gyfer datganiadau o ddiddordeb. Bydd EA yn casglu dyddiadau cynhadledd. I'w gyflwyno hefyd yng Nghymdeithas Llywodraethwyr Caerdydd ar gyfer ymwybyddiaeth o newidiadau posibl.

EA

Gofynnodd SD am i ysgol uwchradd o faint canolig gael ei hychwanegu at y model.

Gofynnwyd am i daflen symlach sy'n manylu ar gyflawniadau o ran dangosyddion perfformiad allweddol a geisiwyd trwy'r model cyllido, gyda buddsoddiadau/arbedion effeithlonrwydd o'r system, gael ei chynhyrchu cyn cynadleddau ysgol, i'w thrafod.

Nododd DS y byddai'n ymddangos bod ysgolion cynradd bach yn ei chael yn waeth; roedd llawer eisoes mewn diffyg ac yn cael trafferth. Esboniodd EA y byddai'r newidiadau a ddangosir mewn enghreifftiau o ysgolion cynradd bach yn debygol o fod yn allanol (lleihau dosbarthiadau meithrin/nifer isel yn manteisio ar PYADd).

| | | |
|---|---|---|
| | Byddai anwadalrwydd yn cael ei leihau gyda chapio prif ffrwd ADY. Pwrpas yr adolygiad oedd mireinio'r fformiwla, gan esblygu i fodloni anghenion cyfredol, a gweithio trwy effeithiau, gan lywio swyddogaeth y fformiwla yn y dyfodol. Bydd y model yn cael ei gyflwyno yn fwy manwl.<br><br>Gofynnodd NN a allai newidiadau sy'n cael eu gwneud gael effaith anghynaladwy ar rai ysgolion cynradd llai. Nododd EA ychydig o newid. | |
| 8.0 | **Cyfraniad Cronfa Gyd-gyflenwi (CGG)** | |
| 8.1 | Nododd EA y bydd adroddiad alldro mis chwech (gwariant hyd yma), cyfraniad a newidiadau i'r CGG yn eitem agenda ym mis Ionawr.<br><br>Bydd y papur yn cael ei ddosbarthu maes o law. | |
| 9.0 | **Unrhyw Fater Arall** | |
| 9.1 | <u>Byrddau Effeithlonrwydd</u><br><br>Nododd SS y canlynol:<br><br>• Cafodd y bwrdd effeithlonrwydd eilaidd ei oedi, yn amodol ar MG yn trafod gyda'r Cadeirydd drefniadau cynhadledd eilaidd yn y dyfodol, i sicrhau bod hyn mor gynhyrchiol â phosibl.<br>• Bydd y prif fwrdd effeithlonrwydd yn cyfarfod ar 22 Tachwedd. Nodwyd sawl maes i fynd ar eu trywydd. Mae gwaith ar ddatganiadau adran 52 a meincnodi wedi symud ymlaen. Mae cyfarfod ar wahân gyda phenaethiaid cynradd ar gostau cyflenwi ac asiantaeth wedi'i drefnu.<br>• Mae gweithdy cyllido ysgolion arbennig ar gyfer trafodaeth fanwl wedi'i drefnu ar gyfer 15 Tachwedd.<br>• Bydd ffurf a phwrpas y byrddau effeithlonrwydd ar gyfer y flwyddyn galendr newydd yn cael eu hadolygu'r tymor hwn.<br><br><u>Eitem Agenda Mis Ionawr</u><br><br>Cytunwyd i Ddiweddariadau Grantiau fod yn eitem ar yr agenda yn y cyfarfod nesaf.<br><br>Nododd ME ddyletswyddau statudol ALl a gofynnodd am ddiweddariad ar grantiau yn dilyn yr Adolygiad Haen Ganol, gan awgrymu bod ysgolion yn cael eu cyllido'n uniongyrchol, gyda chanran i gefnogi dysgwyr yn yr ystafelloedd dosbarth.<br><br>Mynegodd NN siom bod amlinelliad o gynigion Caerdydd i'r Cabinet yn y parth cyhoeddus cyn cael ei rannu gydag ysgolion. Gofynnwyd am i newidiadau gael eu cyfathrebu i ysgolion cyn y cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Nododd SS fod disgwyl i wybodaeth am ddyfodol grantiau addysg ALl a rhagdybiaethau lefel uchel gael ei dosbarthu ar ôl y setliad ym mis Rhagfyr. Byddai cyllid ar gyfer dysgu proffesiynol a chwricwlwm i ysgolion yn parhau. Roedd elfennau a gadwyd yn flaenorol ar gyfer diwygio yn destun newid, yng nghyd-destun cynigion ar gyfer y corff cenedlaethol. Mae cyfraniad a ddefnyddir gan y timau cymorth cenedlaethol, timau lleol ac ôl troed rhanbarthol yn cael ei ystyried.<br><br>Cafodd adroddiad amlinellol Caerdydd ar yr Adolygiad Haen Ganol ac egwyddorion lefel uchel ei graffu ar 12 Tachwedd a bydd yn cael ei ystyried gan y Cabinet ar 21 Tachwedd. Bydd HW ac MG yn cyfathrebu'r camau nesaf cyn bo hir. | Clerc |

| | | |
|---|---|---|
| | Nododd EA fod angen manylion cyn y gellid cyfathrebu gwybodaeth am gronfeydd grantiau.<br><br>Gofynnodd NN am ddiweddariad ar gyfraniadau Grant Gwella Addysg, yn hanesyddol gyda chyfraniad canrannol. A oedd yn rhaid i ysgolion gyfrannu, ac roedd y swm yn aneglur. Esboniodd EA fod ymateb gan LlC ar ddisgwyliadau o ran adroddiadau gan ysgolion ar yr elfen safonau ysgol yn yr arfaeth. Awgrymodd cyfathrebu ar hyblygrwydd dyrannu grantiau y swm lleiaf o adrodd, gallai'r elfen cyllid cyfatebol ddod i ben. (Roedd y Grant Gwella Addysg yn grant yn seiliedig ar gonsortia; y grant safonau ysgol yn seiliedig ar LlC.) Cam Gweithredu: Bydd EA yn dilyn i fyny gyda LlC ac yn cadarnhau pan fydd yn hysbys. | EA |

Acronymau

| | |
|---|---|
| FfCY | Fforwm Cyllideb Ysgolion |
| BY | Balans Ysgol |
| ASG | Adroddiad Strategaeth y Gyllideb |
| CYD | Cyllideb Ysgol wedi'i Dirprwyo |
| CC | Cyngor Caerdydd |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| LlL | Llywodraeth Leol |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| ULl | Undeb Llafur |
| AD | Adnoddau Dynol |
| YG | Yswiriant Gwladol |
| BA | Blwyddyn Ariannol |
| TG | Treth Gyngor |
| Ch_ | Chwarter_ (Rhif perthnasol) |
| CA | Cynllun Ariannol |
| GA | Gwasanaethau Ariannol |
| DC | Dyfarniad Cyflog |
| CBG | Cyflog Byw Gwirioneddol |
| PYADd | Prydau Ysgol Am Ddim |
| RhATC | Rheolaeth Ariannol Tymor Canolig |
| CATC | Cynllun Ariannol Tymor Canolig |
| SCTC | Strategaeth Cyllideb Tymor Canolig |
| CATCau | Cyllidebau Ariannol Tymor Canolig |
| SRhALl | Swyddog Rheoli Ariannol Lleol |
| CGCC/CG | Cronfa Galedi Cyngor Caerdydd/Cronfa Galedi |
| CGLlL | Cronfa Galedi Llywodraeth Leol |
| CGG | Cronfa Gydgyflenwi |
| TGAC | Taliad Gwella Anghenion Cymhleth |
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| RhTY | Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion |
| GDD | Grant Amddifadedd Disgyblion |
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| DDdY | Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol |
| SALl | Setliad Awdurdod Lleol |
| AHY | Addysg Heblaw yn yr Ysgol |

| | |
|---|---|
| DLESRTh | Dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr |